## Beth os ......

……… roedd ganddo 3 het a 3 sgarff?

Allwch chi weld unrhyw batrymau?

Allwch chi ddefnyddio'ch dull i gyfrifo am faint o ddiwrnodau y gallai aros i ffwrdd nawr?




Heriau Digit Dog © Lynwen Barnsley 2017

This FREE resource is available from: www.primarytreasurechest.com

# Her Gwyliau

Pan es i ar wyliau gwisgais i set het a sgarff wahanol bob dydd. Dyma un set.

Tybed a allwch chi gyfrifo faint o ddiwrnodau roeddwn i ar wyliau…….





**Cydiwch yn yr her –** cyn taclo'r her, gadewch i ddysgwyr drafod beth yw amcan yr her yn eu barn nhw. Anogwch ddysgwyr i ddweud beth maen nhw'n ei weld ac i ddatod yr her .


**Beth ydych chi'n sylwi arno? Beth mae Digit Dog wedi bod yn ei wneud? Beth wisgodd e bob dydd? Pa set ydyw e'n gwisgo nawr? Yn eich geiriau eich hun, dywedwch wrthyf beth mae Digit Dog eisiau i chi ei ddarganfod. Allwch chi ei actio fe allan?**

Defnyddiwch hetiau a sgarffiau go iawn, neu gardiau llun, er mwyn i ddysgwyr actio'r broblem allan a'i hesbonio. Anogwch ddysgwyr i roi sylwadau ar esboniadau ei gilydd: Ydych chi'n cytuno gyda'r hyn y mae eich ffrind newydd ei ddweud?
Rydych eisiau i ddysgwyr ddeall y cyfuniadau gwahanol o hetiau a sgarffiau a bod Digit Dog wedi gwisgo set wahanol bob dydd.

## Beth fydd yr ateb yn eich barn chi?

Anogwch ddysgwyr i amcangyfrif a gwneud rhagfynegiadau.
**Gofynnwch:** Faint o setiau sydd, yn eich barn chi?
**Gwnewch awgrymiadau:** A fydd e'n gallu gwneud 20 o setiau?
Mwy na 2 set? Faint yn fwy na 2?
Pam ydych chi'n dweud hynny? Esboniwch beth rydych yn meddwl.

**Dywedodd Calculating Cat ...**




**Beth ydych chi'n meddwl?** Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n iawn? **Pam mae / nad yw hi'n iawn?**

## Gwneud yr her

Gofynnwch i ddysgwyr awgrymu dulliau taclo'r her a chofnodi eu gwaith.
**Gofynnwch:** Sut ydych ch'n mynd I gofnodi y setiau gwahanol?
Os yw'n gwisgo'r het goch, pa sgarff allai ei wisgo? Faint o setiau ydyw e'n gallu gwneud gyda'r het goch?
Faint o setiau ydych chi wedi eu darganfod? Ydych chi wedi eu darganfod nhw i gyd? Sut ydych chi'n gwybod? Sut gallwch chi wirio a ydych wedi colli unrhyw rai?
**Awgrymwch:** ddefnyddio hetiau a sgarffiau go iawn, neu gardiau llun, neu greu llun i brofi eich bod wedi dod o hyd i'r holl setiau. Rhowch bob set ar ddarn o bapur ar wahân fel bod modd eu didoli a'u cymharu.

## Trefnwch eich gwaith

All dysgwyr osod eu gwaith allan mewn ffordd systematig?



Beth ydych chi'n sylwi arno? Faint o hetiau? Faint o sgarffiau?
Faint o setiau gwahanol at ei gilydd?
Mae gosod gwaith allan yn systematig yn helpu dysgwyr i weld 3 lot o ddau.

## Esboniwch beth rydych yn meddwl

Disgrifiwch beth rydych wedi ei wneud. Sut daethoch o hyd i'r setiau?
Sut ydych chi'n gwybod am faint o ddiwrnodau aeth e i ffwrdd?

Esboniwch sut rydych yn gwybod eich bod wedi darganfod yr holl setiau. Darbwyllwch eich hun. Darbwyllwch eich ffrind.

**Heriau Digit Dog © Lynwen Barnsley 2017**